



*Cyhoeddwyd yr Offeryn Statudol hwn yn lle'r OS sy'n dwyn yr un rhif ac fe'I dyroddir yn rhad ac am ddim I bawb y gwyddys iddynt gael yr Offeryn Statudol hwnnw.*

*This Statutory Instrument has been published in substitution of the SI of the same number and is being issued free of charge to all know recipients of that Statutory Instrument.*

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

**2018 Rhif 1215 (Cy. 248)**

**2018 No. 1215 (W. 248)**

**AMAETHYDDIAETH, CYMRU**

**AGRICULTURE, WALES**

**Rheoliadau Dosbarthu Carcasau a  
Hysbysu eu Prisiau (Cymru) 2018**

**The Carcase Classification and  
Price Reporting (Wales)  
Regulations 2018**

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Dosbarthu Carcasau Eidion a Moch (Cymru) 2011 (O.S. 2011/1826 (Cy. 198)) ("Rheoliadau 2011") o ganlyniad i ddiddymu Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1249/2008 (OJ Rhif L 337, 16.12.2008, t. 3).

Mae'r Rheoliadau'n gorfodi'r canlynol—

- Erthygl 10 o Reoliad (EU) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L 347, 20.12.2013, t. 671) ac Atodiad IV iddo, sy'n ymwneud â graddfeydd yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer dosbarthu carcasau; a
- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 2017/1182 (OJ Rhif L 171, 4.7.2017, t. 74) ("Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn"); a Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 2017/1184 (OJ Rhif L 171, 4.7.2017, t. 103) ("Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn") sy'n nodi rhagor o fanylion ynghylch rhoi'r graddfeydd hyn ar waith.

Mae'r Rheoliadau'n ymwneud â charcasau anifeiliaid buchol llawn-dwf (sef anifeiliaid sy'n wyth mis oed neu ragor) a moch.

**EXPLANATORY NOTE**

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations, which apply in relation to Wales, revoke and replace the Beef and Pig Carcase Classification (Wales) Regulations 2011 (S.I. 2011/1826 (W. 198)) ("the 2011 Regulations") consequent to the repeal of Commission Regulation (EC) No 1249/2008 (OJ No L 337, 16.12.2008, p. 3).

The Regulations enforce—

- Article 10 of, and Annex IV to, Regulation (EU) No 1308/2013 of the European Parliament and of the Council (OJ No L 347, 20.12.2013, p. 671), which relate to European Union scales for the classification of carcases; and
- Commission Delegated Regulation (EU) No 2017/1182 (OJ No L 171, 4.7.2017, p. 74) ("the Commission Delegated Regulation"); and Commission Implementing Regulation (EU) No 2017/1184 (OJ No L 171, 4.7.2017, p. 103) ("the Commission Implementing Regulation") which set out further details regarding the implementation of those scales.

The Regulations relate to the carcases of adult bovine animals (being animals aged eight months or more) and pigs.

Mae rheoliad 5 yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr lladd-dai sy'n cigydda anifeiliaid buchol llawn-dwf neu foch hysbysu Gweinidogion Cymru. Er hynny, nid yw'r Rheoliadau'n gymwys i weithredwyr buchol ar raddfa fach sy'n cigydda llai na 150 o anifeiliaid buchol llawn-dwf yr wythnos ar gyfartaledd bob blwyddyn, oni bai eu bod yn dewis dosbarthu carcasau buchol (rheoliad 6); nac i weithredwyr lladd-dai lle y mae llai na 500 o foch glân yr wythnos yn cael eu cigydda, ar gyfartaledd bob blwyddyn (rheoliad 12).

Mae'r Rheoliadau'n darparu ar gyfer system drwyddedu i unrhyw un sy'n dosbarthu carcasau buchol drwy edrych arnynt ac ar gyfer trwyddedu lladd-dai sy'n defnyddio offer graddio awtomataidd i ddsbarthu'r carcasau hynny (rheoliadau 8 i 10). Mae torri gofynion y drwydded yn drosedd (rheoliad 29).

Rhaid i waith dosbarthu carcasau moch gael ei wneud drwy ddefnyddio dull graddio a awdurdodwyd a thechnegau graddio a weithredir gan bersonél cymwys (rheoliad 14). Mae torri'r gofyniad hwn yn drosedd (rheoliad 30). Yn lle marcio carcas mochyn, caniateir i weithredwr gadw cofnod o'i ddsbarthiad (rheoliad 15).

Mae'n ofynnol i weithredwyr lladd-dai cymeradwy gadw cofnodion ynglŷn â charcasau buchol a charcasau moch yn eu tro (rheoliadau 11 ac 16 ac Atodlenni 3 a 4).

Mae Rhan 5 o'r Rheoliadau'n ymwneud â gorfodi, ac yn gwneud darpariaeth ynglŷn â phwerau swyddogion awdurdodedig, hysbysiaidau gorfodi, hysbysiaidau cosb ac achosion troseddol. Mae rheoliadau 20(3) a 26 i 32 yn nodi'r troseddau o dan y Rheoliadau, y gellir cosbi pob un ohonynt ar euogfarn ddiannod â dirwy, ac eithrio troseddau o dan reoliad 31(2) neu (3) (marciau ffug).

Yn benodol, mae rheoliadau 26 a 27 yn darparu bod torri darpariaethau penodedig yn neddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd yn drosedd, sef y darpariaethau eidion Ewropeaidd a nodir yn Atodlen 1 a'r darpariaethau moch Ewropeaidd a nodir yn Atodlen 2. Mae'r darpariaethau a bennir yn Atodlenni 1 a 2 yn cynnwys gofynion ynglŷn â chofnodi a hysbysu prisiau'r farchnad ar gyfer carcasau buchol a charcasau moch yn eu tro.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal aseiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn gan fod y diwygiadau o natur dechnegol.

Regulation 5 requires notifications to be made to the Welsh Ministers by operators of slaughterhouses which slaughter adult bovine animals or pigs. However, the Regulations do not apply to small-scale bovine operators slaughtering fewer than 150 adult bovine animals per week as an annual average, unless they choose to classify bovine carcasses (regulation 6); or to the operators of slaughterhouses at which fewer than 500 clean pigs per week as an annual average are slaughtered (regulation 12).

The Regulations provide for a licensing system for anybody who visually classifies bovine carcasses and for the licensing of slaughterhouses using automated grading equipment for classifying such carcasses (regulations 8 to 10). Breach of the licensing requirements is an offence (regulation 29).

The classification of pig carcasses must be carried out using an authorised grading method and grading techniques operated by qualified personnel (regulation 14). Breach of this requirement is an offence (regulation 30). An operator may, instead of marking a pig carcass, keep a record concerning its classification (regulation 15).

Operators of approved slaughterhouses are required to keep records relating to bovine and pig carcasses respectively (regulations 11 and 16 and Schedules 3 and 4).

Part 5 of the Regulations concerns enforcement, and makes provision relating to the powers of authorised officers, enforcement notices, penalty notices and criminal proceedings. Regulations 20(3) and 26 to 32 set out the offences under the Regulations, which are all punishable on summary conviction by a fine, except for offences under regulation 31(2) or (3) (false marks).

In particular, regulations 26 and 27 provide that breach of specified provisions of European Union legislation is an offence, namely European beef provisions set out in Schedule 1 and European pig provisions set out in Schedule 2. The provisions specified in Schedules 1 and 2 include requirements for recording and reporting market prices for bovine and pig carcasses respectively.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations as the amendments are technical in nature.

*Cyhoeddwyd yr Offeryn statudol hwn yn lle'r OS sy'n dwyn yr un rhif ac fe'i dyroddir yn rhad ac am ddim I bawb y gwyddys iddynt gael yr Offeryn Statudol hwnnw.*

*This Statutory Instrument has been published in substitution of the SI of the same number and is being issued free of charge to all known recipients of that Statutory Instrument.*

---

FFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

---

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

---

**2018 Rhif 1215 (Cy. 248)**

**2018 No. 1215 (W. 248)**

**AMAETHYDDIAETH, CYMRU**

**AGRICULTURE, WALES**

**Rheoliadau Dosbarthu Carcasau a  
Hysbysu eu Prisiau (Cymru) 2018**

**The Carcase Classification and  
Price Reporting (Wales)  
Regulations 2018**

*Gwnaed* 22 Tachwedd 2018

*Made* 22 November 2018

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol  
Cymru* 23 Tachwedd 2018

*Laid before the National Assembly for Wales*  
23 November 2018

*Yn dod i rym* 14 Rhagfyr 2018

*Coming into force* 14 December 2018

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 a pharagraff 1A o Atodlen 2 iddi(1).

The Welsh Ministers make these Regulations in exercise of the powers conferred by section 2(2) of, and paragraph 1A of Schedule 2 to, the European Communities Act 1972(1).

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi(2) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin yr Undeb Ewropeaidd.

The Welsh Ministers are designated(2) for the purposes of section 2(2) of the European Communities Act 1972 in relation to the common agricultural policy of the European Union.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth at ddiben a grybwyllir yn yr adran honno ac mae'n ymddangos i Weiniogion Cymru ei bod yn hwylus dehongli cyfeiriadau at y Rheoliadau a ganlyn fel cyfeiriad at y Rheoliadau hynny fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd—

These Regulations make provision for a purpose mentioned in that section and it appears to the Welsh Ministers that it is expedient for references to the following Regulations to be construed as a reference to those Regulations as amended from time to time—

---

(1) 1972 p. 68. Diwygiwyd adran 2(2) gan adran 27(1)(a) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51) a chan adran 3(3) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7), a Rhan 1 o'r Atodlen iddi. Mewnosodwyd paragraff 1A o Atodlen 2 gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006.

---

(1) 1972 c. 68. Section 2(2) was amended by section 27(1)(a) of the Legislative and Regulatory Reform Act 2006 (c. 51) and by section 3(3) of, and Part 1 of the Schedule to, the European Union (Amendment) Act 2008 (c. 7). Paragraph 1A of Schedule 2 was inserted by section 28 of the Legislative and Regulatory Reform Act 2006. Section 2(2) and paragraph 1A of Schedule 2 are prospectively repealed by section 1 of the European Union (Withdrawal) Act 2018 (c. 16) from exit day (see section 20 of that Act).

(2) O.S. 2010/2690.

(2) S.I. 2010/2690.

- (a) Rheoliad (EU) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n sefydlu cyd-drefniadaeth ar gyfer y marchnadoedd mewn cynhyrchion amaethyddol(1);
- (b) Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 2017/1182 sy'n cydategu Rheoliad (EU) Rhif 1308/213 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran graddfeydd yr Undeb ar gyfer dosbarthu carcasau eidion, moch a defaid ac o ran hysbysu prisiau marchnad categorïau penodol o garcasau ac anifeiliaid byw(2); ac
- (c) Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 2017/1184 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (EU) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran graddfeydd yr Undeb ar gyfer dosbarthu carcasau eidion, moch a defaid ac o ran hysbysu prisiau marchnad categorïau penodol o garcasau ac anifeiliaid byw(3).

- (a) Regulation (EU) No 1308/2013 of the European Parliament and of the Council establishing a common organisation of the markets in agricultural products(1);
- (b) Commission Delegated Regulation (EU) No 2017/1182 supplementing Regulation (EU) No 1308/2013 of the European Parliament and of the Council as regards the Union scales for the classification of beef, pig and sheep carcasses and as regards the reporting of market prices of certain categories of carcasses and live animals(2); and
- (c) Commission Implementing Regulation (EU) No 2017/1184 laying down rules for the application of Regulation (EU) No 1308/2013 of the European Parliament and of the Council as regards the Union scales for the classification of beef, pig and sheep carcasses and as regards the reporting of market prices of certain categories of carcasses and live animals(3).

## RHAN 1

### DARPARIAETHAU CYFFREDINOL

#### Enwi, cymhwyso a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Dosbarthu Carcasau a Hysbysu eu Prisiau (Cymru) 2018.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 14 Rhagfyr 2018.

#### Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr “anifail buchol llawn-dwf” (“*adult bovine animal*”) yw anifail buchol sy'n wyth mis oed neu ragor;

ystyr “carcas buchol” (“*bovine carcase*”) yw carcas neu hanner carcas anifail buchol llawn-dwf a gigyddwyd ac sy'n dwyn marc iechyd y darperir ar ei gyfer yn Erthygl 5(2) o Reoliad (EC) Rhif 854/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor a Phennod III o Adran 1 o Atodiad 1 iddo, sy'n gosod rheolau penodol ar gyfer trefnu rheolaethau swyddogol ar gynhyrchion sy'n tarddu o anifeiliaid ac a fwriedir

## PART 1

### GENERAL PROVISIONS

#### Title, application and commencement

1.—(1) The title of these Regulations is the Carcase Classification and Price Reporting (Wales) Regulations 2018.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

(3) These Regulations come into force on 14 December 2018.

#### Interpretation

2.—(1) In these Regulations—

“the 2011 Regulations” (“*Rheoliadau 2011*”) means the Beef and Pig Carcase Classification (Wales) Regulations 2011(4);

“adult bovine animal” (“*anifail buchol llawn-dwf*”) means a bovine animal aged eight months or more;

“approved slaughterhouse” (“*lladd-dy cymeradwy*”) means an establishment used for slaughtering adult bovine animals or pigs, the meat of which is intended for human consumption and which is approved or conditionally approved under

(1) OJ Rhif L 347, 20.12.2013, t. 671, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EU) Rhif 2017/2393 (OJ Rhif L 350, 29.12.2017, t. 15).

(2) OJ Rhif L 171, 4.7.2017, t. 74.

(3) OJ Rhif L 171, 4.7.2017, t. 103.

(1) OJ No L 347, 20.12.2013, p. 671, as last amended by Regulation (EU) No 2017/2393 (OJ No L 350, 29.12.2017, p. 15).

(2) OJ No L 171, 4.7.2017, p. 74.

(3) OJ No L 171, 4.7.2017, p. 103.

(4) S.I. 2011/1826 (W. 198).



ar gyfer eu bwyta gan bobl(1); ac yn y diffiniad hwn—

- (a) ystyr “carcas” yw holl gorff anifail a gigyddwyd fel y’i cyflwynir ar ôl ei waedu, ei ddiberfeddu a thynnu ei groen, a
- (b) ystyr “hanner carcass” yw’r cynnyrch a geir drwy wahanu’r carcass yn gymesur drwy ganol pob fertebra gyddfoll, dorsal, meingefnol a sacrol a thrwy ganol y sternwm a’r symffysis isgiopwbig;

ystyr “carcas mochyn” (“*pig carcass*”) yw corff mochyn glân sydd wedi ei gigydda, wedi ei waedu ac wedi ei ddiberfeddu, yn gyfan ynteu wedi ei rannu ar hyd y llinell ganol;

ystyr “cyfathrebiad rhagnodedig” (“*prescribed communication*”) yw cyfathrebiad o’r canlyniadau dosbarthu yn unol â gofynion Erthygl 1 o Reoliad Gweithredu’r Comisiwn;

ystyr “darpariaeth eidion Ewropeaidd” (“*European beef provision*”) yw darpariaeth a bennir yng ngholofn (2) o Atodlen 1, y disgrifir ei chynnwys yng ngholofn (3) o’r Atodlen honno;

ystyr “darpariaeth moch Ewropeaidd” (“*European pig provision*”) yw darpariaeth a bennir yng ngholofn (2) o Atodlen 2, y disgrifir ei chynnwys yng ngholofn (3) o’r Atodlen honno;

ystyr “dosbarthu” (“*classification*”) yw—

- (a) dosbarthu carcassau buchol yn unol â’r darpariaethau eidion Ewropeaidd, neu
- (b) dosbarthu carcassau moch yn unol â’r darpariaethau moch Ewropeaidd a rheoliad 14,

yn ôl y digwydd, ac mae termau cytras i’w dehongli yn unol â hynny;

ystyr “gweithredwr” (“*operator*”) yw person sy’n cynnal busnes lladd-dy cymeradwy;

ystyr “lladd-dy cymeradwy” (“*approved slaughterhouse*”) yw sefydliad a ddefnyddir i gigydda anifeiliaid buchol llawn-dwf neu foch, y mae eu cig wedi ei fwriadu ar gyfer ei fwyta gan bobl ac sydd wedi ei gymeradwyo neu wedi ei gymeradwyo’n amodol o dan Erthygl 4 o Reoliad (EC) Rhif 853/2004 Senedd Ewrop a’r Cyngor sy’n gosod rheolau hylendid penodol ar gyfer bwyd sy’n tarddu o anifeiliaid(2);

Article 4 of Regulation (EC) No 853/2004 of the European Parliament and of the Council laying down specific hygiene rules for food of animal origin(1);

“authorised officer” (“*swyddog awdurdodedig*”) means a person authorised by the Welsh Ministers for the purposes of these Regulations, but does not include a person appointed for the purpose of considering an appeal under regulation 10;

“bovine carcass” (“*carcas buchol*”) means a carcass or half-carcass of a slaughtered adult bovine animal bearing a health mark provided for in Article 5(2) of, and Chapter III of Section 1 of Annex 1 to, Regulation (EC) No 854/2004 of the European Parliament and of the Council laying down specific rules for the organisation of official controls on products of animal origin intended for human consumption(2); and in this definition—

- (a) “carcass” means the whole body of a slaughtered animal as presented after bleeding, evisceration and skinning, and
- (b) “half-carcass” means the product obtained by separating the carcass symmetrically through the middle of each cervical, dorsal, lumbar and sacral vertebra and through the middle of the sternum and ischiopubic symphysis;

“classification” (“*dosbarthu*”) means—

- (a) the classification of bovine carcasses in accordance with the European beef provisions, or
- (b) the classification of pig carcasses in accordance with the European pig provisions and with regulation 14,

as the case may be and cognate terms are to be construed accordingly;

“clean pig” (“*mochyn glân*”) means a pig which has not been used for breeding;

“Commission Delegated Regulation” (“*Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn*”) means Commission Delegated Regulation (EU) No 2017/1182 supplementing Regulation (EU) No 1308/2013 of the European Parliament and of the Council as regards the Union scales for the classification of beef, pig and sheep carcasses and as regards the reporting of market prices of certain categories of carcasses of live animals(3);

“Commission Implementing Regulation” (“*Rheoliad Gweithredu’r Comisiwn*”) means

(1) OJ Rhif L 139, 30.4.2004, t. 206, fel y’i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 2015/2285 (OJ Rhif L 323, 9.12.2015, t. 6).

(2) OJ Rhif L 139, 30.4.2004, t. 55, fel y’i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 2017/1981 (OJ Rhif L 285, 1.11.2017, t. 10).

(1) OJ No L 139, 30.4.2004, p. 55, as last amended by Commission Regulation (EU) No 2017/1981 (OJ No L 285, 1.11.2017, p. 10).

(2) OJ No L 139, 30.4.2004, p. 206, as last amended by Commission Regulation (EU) No 2015/2285 (OJ No L 323, 9.12.2015, p. 2).

(3) OJ No L 171, 4.7.2017, p. 74.

ystyr “mochyn glân” (“*clean pig*”) yw mochyn sydd heb ei ddefnyddio ar gyfer bridio;

ystyr “Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn” (“*Commission Delegated Regulation*”) yw Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 2017/1182 sy’n cydategu Rheoliad (EU) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a’r Cyngor o ran graddfeydd yr Undeb ar gyfer dosbarthu carcassau eidion, moch a defaid ac o ran hysbysu prisiau marchnad categorïau penodol o garcassau ac anifeiliaid byw(1);

ystyr “Rheoliad (EU) 2013” (“*Regulation (EU) 2013*”) yw Rheoliad (EU) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a’r Cyngor sy’n sefydlu cyd-drefniadaeth ar gyfer y marchnadoedd mewn cynhyrchion amaethyddol;(2)

ystyr “Rheoliad Gweithredu’r Comisiwn” (“*Commission Implementing Regulation*”) yw Rheoliad Gweithredu’r Comisiwn (EU) Rhif 2017/1184 sy’n gosod rheolau ar gymhwyso Rheoliad (EU) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a’r Cyngor o ran graddfeydd yr Undeb ar gyfer dosbarthu carcassau eidion, moch a defaid ac o ran hysbysu prisiau marchnad categorïau penodol o garcassau ac anifeiliaid byw(3);

ystyr “Rheoliadau 2011” (“*the 2011 Regulations*”) yw Rheoliadau Dosbarthu Carcassau Eidion a Moch (Cymru) 2011(4);

ystyr “swyddog awdurdodedig” (“*authorised officer*”) yw person a awdurdodir gan Weinidogion Cymru at ddibenion y Rheoliadau hyn, ond nid yw’n cynnwys person a benodir er mwyn ystyried apêl o dan reoliad 10.

(2) Mae i’r termau eraill a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn ac y defnyddir y termau Saesneg sy’n cyfateb iddynt yn Rheoliad (EU) 2013, Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn neu Rheoliad Gweithredu’r Comisiwn, yr ystyron a ddygir gan y termau cyfatebol Saesneg yn y Rheoliadau hynny.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, mae unrhyw gyfeiriad at—

- (a) Rheoliad (EU) 2013,
- (b) Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn, neu
- (c) Rheoliad Gweithredu’r Comisiwn,

i’w ddehongli fel cyfeiriad at yr offeryn hwnnw fel y’i diwygir o bryd i’w gilydd.

Commission Implementing Regulation (EU) No 2017/1184 laying down rules for the application of Regulation (EU) No 1308/2013 of the European Parliament and of the Council as regards the Union scales for the classification of beef, pig and sheep carcasses and as regards the reporting of market prices of certain categories of carcasses and live animals(1);

“European beef provision” (“*darpariaeth eidion Ewropeaidd*”) means a provision which is specified in column (2) of Schedule 1, the subject matter of which is described in column (3) of that Schedule;

“European pig provision” (“*darpariaeth moch Ewropeaidd*”) means a provision which is specified in column (2) of Schedule 2, the subject matter of which is described in column (3) of that Schedule;

“operator” (“*gweithredwr*”) means a person carrying on the business of an approved slaughterhouse;

“pig carcass” (“*carcas mochyn*”) means the body of a slaughtered clean pig, bled and eviscerated, whole or divided down the mid-line;

“prescribed communication” (“*cyfathrebiad rhagnodedig*”) means a communication of the results of the classification as required by Article 1 of the Commission Implementing Regulation;

“Regulation (EU) 2013” (“*Rheoliad (EU) 2013*”) means Regulation (EU) No 1308/2013 of the European Parliament and of the Council establishing a common organisation of the markets in agricultural products.(2)

(2) Other terms used in these Regulations that are also used in Regulation (EU) 2013, the Commission Delegated Regulation or the Commission Implementing Regulation have the meaning they bear in those Regulations.

(3) In these Regulations, any reference to—

- (a) Regulation (EU) 2013,
- (b) the Commission Delegated Regulation, or
- (c) the Commission Implementing Regulation,

is to be construed as a reference to that instrument as amended from time to time.

(1) OJ Rhif L 171, 4.7.2017, t. 74.

(2) OJ Rhif L 347, 20.12.2013, t. 671, fel y’i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EU) Rhif 2017/2393 (OJ Rhif L 350, 29.12.2017, t. 15).

(3) OJ Rhif L 171, 4.7.2017, t. 103.

(4) O.S. 2011/1826 (Cy. 198).

(1) OJ No L 171, 4.7.2017, p. 103

(2) OJ No L 347, 20.12.2013, p. 671, as last amended by Regulation (EU) No 2017/2393 (OJ No L 350, 29.12.2017, p. 15).

## Darpariaethau trosiannol

3. Mae unrhyw hysbysiad, trwydded, cymeradwyaeth neu awdurdodiad a roddwyd neu a ganiatawyd o dan Reoliadau 2011 ac sy'n effeithiol pan ddaw'r Rheoliadau hyn i rym yn aros mewn grym fel pe baent wedi eu rhoi neu wedi eu caniatáu o dan y Rheoliadau hyn.

## Dirymu

4. Mae'r canlynol wedi eu dirymu—
- Rheoliadau 2011; a
  - rheoliad 2 o Reoliadau'r Trefniant Cyffredin Sengl ar gyfer Marchnadoedd (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2013(1).

## RHAN 2

### HYSBYSU GAN WEITHREDWYR

#### Hysbysu gan weithredwyr

- 5.—(1) Rhaid i bob person—
- sy'n weithredwr ar y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym, neu
  - sy'n dod yn weithredwr ar ddyddiad dilynol,

roi hysbysiad i Weinidogion Cymru o'r manylion a bennir ym mharagraff (3) o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym neu o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad y daw'r person hwnnw'n weithredwr, yn ôl y digwydd.

- (2) Bernir bod person—
- sydd wedi rhoi hysbysiad, neu y barnwyd ei fod wedi rhoi hysbysiad, o dan reoliad 5(1) neu (2) o Reoliadau 2011, a
  - y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddo yn rhinwedd rheoliad 6 neu 12,

wedi rhoi hysbysiad o dan baragraff (1).

- (3) Dyma'r manylion ym mharagraff (1)—
- enw a chyfeiriad llawn y gweithredwr;
  - pan fo'r gweithredwr yn bartneriaeth neu'n gydberchnogion, enwau a chyfeiriadau llawn pob un o'r partneriaid neu'r cydberchnogion;
  - pan fo'r gweithredwr yn gorff corfforaethol, enw llawn, cyfeiriad swyddfa gofrestredig a rhif cofrestru'r corff; a
  - cyfeiriad, rhif teleffon a rhif cymeradwyo'r lladd-dy.

## Transitional provisions

3. Any notice, licence, approval or authorisation, given or granted under the 2011 Regulations and which has effect at the coming into force of these Regulations remains in force as if it were given or granted under these Regulations.

## Revocations

4. The following are revoked—
- the 2011 Regulations; and
  - regulation 2 of the Single Common Market Organisation (Consequential Amendments) (Wales) Regulations 2013(1).

## PART 2

### NOTIFICATIONS BY OPERATORS

#### Notification by operators

- 5.—(1) Every person who—
- is an operator on the coming into force date of these Regulations, or
  - becomes an operator on a subsequent date,

must, within 28 days of the coming into force date of these Regulations or of the date on which that person becomes an operator as the case may be, give notice to the Welsh Ministers of the particulars specified in paragraph (3).

- (2) A person—
- who has given notice, or who has been deemed to have given notice, under regulation 5(1) or (2) of the 2011 Regulations, and
  - to whom these Regulations apply by virtue of regulation 6 or 12,

is deemed to have given notice under paragraph (1).

- (3) The particulars in paragraph (1) are—
- the full name and address of the operator;
  - where the operator is a partnership or joint owners, the full names and addresses of all the partners or joint owners;
  - where the operator is a body corporate, the full name, registered office address and registration number of the body; and
  - the address, telephone number and approval number of the slaughterhouse.

---

(1) O.S. 2013/3270 (Cy. 320).

---

(1) S.I. 2013/3270 (W. 320).

(4) Pan fo unrhyw newid yn digwydd mewn unrhyw un neu ragor o'r manylion a bennir ym mharagraff (3), rhaid i'r gweithredwr, o fewn 28 diwrnod i ddyddiad y newid, roi hysbysiad o fanylion y newid i Weinidogion Cymru.

(5) Pan fo gweithredwr ("G") yn peidio â bod yn weithredwr lladd-dy cymeradwy, rhaid i G, o fewn 10 niwrnod i'r dyddiad y peidiodd â bod yn weithredwr o'r fath, roi hysbysiad i Weinidogion Cymru o'r canlynol—

- (a) y dyddiad y peidiodd â bod yn weithredwr o'r fath; a
- (b) y person (os oes un) sy'n olynu G fel gweithredwr y lladd-dy hwnnw.

(6) Pan fo lladd-dy cymeradwy'n peidio â bod yn lladd-dy o'r fath, rhaid i weithredwr y lladd-dy, o fewn 10 niwrnod i'r dyddiad y peidiodd â bod yn lladd-dy o'r fath, roi hysbysiad i Weinidogion Cymru o'r dyddiad y peidiodd â bod yn lladd-dy o'r fath.

### RHAN 3

#### CARCASAU BUCHOL

##### **Cymhwyso'r Rheoliadau hyn at weithredwyr buchol ar raddfa fach**

6.—(1) Nid yw'n ofynnol i weithredwr buchol ar raddfa fach ddsbarthu carcasau buchol.

(2) Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys i weithredwr buchol ar raddfa fach nad yw'n dosbarthu carcasau buchol.

(3) Ond, os bydd gweithredwr buchol ar raddfa fach yn dewis dosbarthu carcasau buchol, mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â'r gweithredwr hwnnw ac mewn perthynas â dosbarthu'r carcasau hynny.

(4) Yn y rheoliad hwn, ystyr "gweithredwr buchol ar raddfa fach" yw gweithredwr lladd-dy cymeradwy lle y mae llai na 150 o anifeiliaid buchol llawn-dwf yn cael eu cigyddu bob wythnos, ar gyfartaledd dros flwyddyn.

(5) Ni fernir bod unrhyw weithredwr buchol ar raddfa fach yr oedd yn ofynnol iddo, nes i'r Rheoliadau hyn ddod i rym, ddsbarthu carcasau buchol o dan Reoliadau 2011 wedi dewis gwneud hynny at ddibenion paragraff (3) am y rheswm hwnnw yn unig.

(6) Nid oes dim yn y rheoliad hwn sy'n rhwystro'r Rheoliadau hyn rhag cael eu cymhwyso at weithredwr mewn perthynas â charcasau moch, os oes moch hefyd yn cael eu cigyddu yn lladd-dy'r gweithredwr hwnnw.

(4) Where any change occurs in any of the particulars specified in paragraph (3), the operator must within 28 days of the change give notice to the Welsh Ministers of the particulars of the change.

(5) Where an operator ("O") ceases to be the operator of an approved slaughterhouse, O must within 10 days of the cessation give notice to the Welsh Ministers of—

- (a) the date of the cessation; and
- (b) the person (if any) succeeding O as operator of that slaughterhouse.

(6) Where an approved slaughterhouse ceases to be such a slaughterhouse, its operator must within 10 days of such cessation give notice to the Welsh Ministers of the date of that cessation.

### PART 3

#### BOVINE CARCASSES

##### **Application of these Regulations to small-scale bovine operators**

6.—(1) A small-scale bovine operator is not required to classify bovine carcasses.

(2) These Regulations do not apply to a small-scale bovine operator which does not classify bovine carcasses.

(3) But if a small-scale bovine operator chooses to classify bovine carcasses, these Regulations apply in relation to that operator and the classification of those carcasses.

(4) In this regulation, "small-scale bovine operator" means an operator of an approved slaughterhouse at which fewer than 150 adult bovine animals per week as an annual average are slaughtered.

(5) Any small-scale bovine operator who, until the coming into force of these Regulations, was required to classify bovine carcasses under the 2011 Regulations is not by that reason alone deemed to have chosen to do so for the purposes of paragraph (3).

(6) Nothing in this regulation prevents the application of these Regulations to an operator in relation to pig carcasses if pigs are also slaughtered in that operator's slaughterhouse.



### **Awdurdodau cymwys: carcasau buchol**

7.—(1) Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod cymwys at ddibenion—

- (a) Erthygl 12(2)(b) o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (darpariaethau ychwanegol ar ddsbarthu drwy dechnegau graddio awtomataidd);
- (b) Erthyglau 13 a 14 o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn ac Erthygl 14 o Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (hysbysu prisiau'r farchnad a chyfrifo pris cyfartalog pob dosbarth);
- (c) Erthygl 17(2) o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (darpariaethau atodol ar hysbysu prisiau marchnad carcasau);
- (d) Erthygl 4(1) o Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (gwneud a chadw adroddiadau ar gyfer gwiriadau yn y fan a'r lle).

(2) Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am y canlynol—

- (a) Erthygl 10 o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (awdurdodi dulliau graddio awtomataidd);
- (b) Erthygl 25 o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (hysbysu'r Comisiwn);
- (c) gwiriadau yn y fan a'r lle, yn unol â'r disgrifiad o "on-the-spot checks" yn Erthyglau 2 a 3 o Reoliad Gweithredu'r Comisiwn.

### **Trwydded i ymgymryd â dosbarthu**

8.—(1) Caiff Gweinidogion Cymru ganiatáu trwydded i ymgymryd â dosbarthu carcasau buchol drwy edrych arnynt i unrhyw berson sy'n gwneud cais am drwydded o'r fath ac sy'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei fod yn gymwys i ymgymryd â'r dosbarthu, os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod y ceisydd yn berson addas a phriodol i ymgymryd â dosbarthu carcasau buchol.

(2) Caniateir i'r drwydded gael ei rhoi yn ddarostyngedig i unrhyw delerau ac amodau y mae Gweinidogion Cymru'n ystyried eu bod yn angenrheidiol at ddibenion paragraff (1).

(3) Yn ychwanegol at y pŵer i ddirymu trwydded yn yr amgylchiadau a grybwyllir yn Erthygl 4(2) o Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (dosbarthiadau, cyflwyniadau neu adnabyddiadau anghywir), caiff Gweinidogion Cymru atal dros dro neu ddirymu trwydded a ganiatwyd i berson o dan y rheoliad hwn—

### **Competent authorities: bovine carcasses**

7.—(1) The Welsh Ministers are the competent authority for the purposes of—

- (a) Article 12(2)(b) of the Commission Delegated Regulation (additional provisions on classification by automated grading techniques);
- (b) Articles 13 and 14 of the Commission Delegated Regulation and Article 14 of the Commission Implementing Regulation (reporting of market prices and calculation of average price per class);
- (c) Article 17(2) of the Commission Delegated Regulation (supplementary provisions for reporting of market prices for carcasses);
- (d) Article 4(1) of the Commission Implementing Regulation (making and keeping reports for on-the-spot checks).

(2) The Welsh Ministers are responsible for—

- (a) Article 10 of the Commission Delegated Regulation (authorisation of automated grading methods);
- (b) Article 25 of the Commission Delegated Regulation (notification to the Commission);
- (c) on-the-spot checks as described in Articles 2 and 3 of the Commission Implementing Regulation.

### **Licence to carry out classification**

8.—(1) The Welsh Ministers may grant a licence to carry out visual classification of bovine carcasses to any person who applies for such a licence and who appears to the Welsh Ministers to be qualified to carry out the classification, if the Welsh Ministers are satisfied that the applicant is a fit and proper person to carry out classification of bovine carcasses.

(2) The licence may be made subject to such terms and conditions as the Welsh Ministers consider necessary for the purposes of paragraph (1).

(3) In addition to the power to revoke a licence in the circumstances mentioned in Article 4(2) of the Commission Implementing Regulation (incorrect classification, presentations or identifications), the Welsh Ministers may suspend or revoke a licence granted to a person under this regulation if—



- (a) os yw'r person wedi torri unrhyw un neu ragor o delerau neu amodau'r drwydded honno; neu
- (b) os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni nad yw'r person sy'n dal y drwydded honno yn berson addas a phriodol mwyach i ymgymryd â dosbarthu carcasau buchol.

(4) Pan fo Gweinidogion Cymru'n gwneud unrhyw benderfyniad mewn perthynas â thrwydded o dan y rheoliad hwn, a'r penderfyniad hwnnw'n ysgogi hawl i apelio o dan reoliad 10, rhaid i Weinidogion Cymru—

- (a) hysbysu'r person am y penderfyniad mewn ysgrifen;
- (b) rhoi'r rhesymau; ac
- (c) esbonio bod yna hawl i apelio i berson a benodir gan Weinidogion Cymru.

- (a) the person has contravened any of the terms or conditions of that licence; or
- (b) the Welsh Ministers are satisfied that the person holding that licence is no longer a fit and proper person to carry out classification of bovine carcasses.

(4) Where the Welsh Ministers take any decision in relation to a licence under this regulation which gives rise to a right to appeal under regulation 10, the Welsh Ministers must—

- (a) inform the person of the decision in writing;
- (b) give the reasons; and
- (c) explain that there is a right of appeal to a person appointed by the Welsh Ministers.

### Trwydded ar gyfer graddio awtomataidd

9.—(1) Caiff Gweinidogion Cymru ganiatáu trwydded i weithredwr lladd-dy cymeradwy i awdurdodi defnyddio offer graddio awtomataidd i ddosbarthu carcasau buchol yn y lladd-dy hwnnw, os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni y byddai'r offer a'i ddull gweithredu yn bodloni'r safonau sy'n ofynnol gan Erthyglau 9(b) a 10(2) (o'u darllen gyda Rhan A o Atodiad IV) o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn.

(2) Caniateir i'r drwydded gael ei rhoi yn ddarostyngedig i unrhyw delerau ac amodau y mae eu hangen er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r safonau hynny.

(3) Yn ychwanegol at y pŵer i ddirymu trwydded yn yr amgylchiadau a grybwyllir yn Erthygl 4(2) o Reoliad Gweithredu'r Comisiwn, caiff Gweinidogion Cymru atal dros dro neu ddirymu trwydded a ganiatawyd i weithredwr o dan y rheoliad hwn—

- (a) os yw'r gweithredwr wedi torri unrhyw un neu ragor o delerau neu amodau'r drwydded; neu
- (b) os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried nad yw'r offer graddio awtomataidd mwyach yn bodloni'r safonau sy'n ofynnol gan Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn, pa un ai am resymau sy'n gysylltiedig â'r offer ei hun neu'r modd y defnyddir yr offer gan y gweithredwr.

(4) Pan fo Gweinidogion Cymru'n gwneud unrhyw benderfyniad mewn perthynas â thrwydded o dan y rheoliad hwn, a'r penderfyniad hwnnw'n ysgogi hawl i apelio o dan reoliad 10, rhaid i Weinidogion Cymru—

### Licence for automated grading

9.—(1) The Welsh Ministers may grant to the operator of an approved slaughterhouse a licence authorising the use of automated grading equipment for classification of bovine carcasses at that slaughterhouse, if the Welsh Ministers are satisfied that the equipment and the manner of its operation would meet the standards required by Articles 9(b) and 10(2) (read with Part A of Annex IV) of the Commission Delegated Regulation.

(2) The licence may be made subject to such terms and conditions as are necessary to ensure compliance with those standards.

(3) In addition to the power to revoke a licence in the circumstances mentioned in Article 4(2) of the Commission Implementing Regulation, the Welsh Ministers may suspend or revoke a licence granted to an operator under this regulation if—

- (a) the operator has contravened any of the terms or conditions of the licence; or
- (b) the Welsh Ministers consider that the automated grading equipment no longer meets the standards required by the Commission Delegated Regulation, whether for reasons connected with the equipment itself or with the operator's manner of operation of the equipment.

(4) Where the Welsh Ministers take any decision in relation to a licence under this regulation which gives rise to a right to appeal under regulation 10, the Welsh Ministers must—

- (a) hysbysu'r person am y penderfyniad mewn ysgrifedig;
- (b) rhoi'r rhesymau; ac
- (c) esbonio bod yna hawl i apelio i berson a benodir gan Weinidogion Cymru.

- (a) inform the person of the decision in writing;
- (b) give the reasons; and
- (c) explain that there is a right of appeal to a person appointed by the Welsh Ministers.

#### Apelau ynghylch trwyddedau

10.—(1) Caniateir i berson apelio yn erbyn—

- (a) penderfyniad gan Weinidogion Cymru i wrthod cais gan y person hwnnw am drwydded o dan reoliad 8 neu 9;
- (b) telor neu amod a osodwyd gan Weinidogion Cymru mewn trwydded a ganiatawyd i'r person hwnnw o dan reoliad 8 neu 9; neu
- (c) penderfyniad gan Weinidogion Cymru i atal dros dro neu ddirymu trwydded o dan reoliad 8 neu 9.

(2) Rhaid i'r apêl gael ei gwneud i berson a benodir at y diben gan Weinidogion Cymru.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru hefyd gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r person a benodir ynglŷn â'r penderfyniad.

(4) Rhaid i'r person a benodir ystyried yr apêl ac unrhyw sylwadau a gyflwynir gan Weinidogion Cymru, a rhaid iddo gyflwyno adroddiad ysgrifenedig i Weinidogion Cymru gyda'i gasgliadau ar yr apêl ac argymhellad ar sut y dylai'r mater gael ei benderfynu'n derfynol gan Weinidogion Cymru.

(5) Wedyn rhaid i Weinidogion Cymru gyrraedd penderfyniad terfynol, a hysbysu'r person a wnaeth yr apêl am y penderfyniad hwnnw a'r rhesymau drosto.

#### Cofnodion: carcassau buchol

11.—(1) Rhaid i weithredwr lladd-dy cymeradwy gadw cofnod o'r manylion a bennir yn Atodlen 3 ynglŷn â phob carcass buchol a ddosberthir yn y lladd-dy hwnnw.

(2) Rhaid i'r gweithredwr ddal gafael ar bob cofnod am gyfnod o 12 mis o ddiwedd y flwyddyn galendr y mae'r cofnod yn berthynol iddi.

### RHAN 4

#### CARCASAU MOCH

##### Esemptiad i weithredwyr moch ar raddfa fach

12.—(1) Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys i weithredwr lladd-dy cymeradwy lle y mae llai na 500 o foch glân yn cael eu cigyddu bob wythnos, ar gyfartaledd dros flwyddyn.

#### Appeals regarding licences

10.—(1) A person may appeal against—

- (a) a decision by the Welsh Ministers to refuse an application by that person for a licence under regulation 8 or 9;
- (b) a term or condition imposed by the Welsh Ministers in a licence granted to that person under regulation 8 or 9; or
- (c) a decision by the Welsh Ministers to suspend or revoke a licence under regulation 8 or 9.

(2) The appeal must be made to a person appointed for the purpose by the Welsh Ministers.

(3) The Welsh Ministers may also make written representations to the appointed person concerning the decision.

(4) The appointed person must consider the appeal and any representations made by the Welsh Ministers and must report in writing to the Welsh Ministers with the person's conclusions on the appeal and a recommendation as to the manner in which the matter should be finally determined by the Welsh Ministers.

(5) The Welsh Ministers must then reach a final determination and notify the person who made the appeal of that decision and the reasons for it.

#### Records: bovine carcasses

11.—(1) An operator of an approved slaughterhouse must keep a record of the particulars specified in Schedule 3 relating to each bovine carcass which is classified in that slaughterhouse.

(2) The operator must retain each record for a period of 12 months from the end of the calendar year to which the record relates.

### PART 4

#### PIG CARCASSES

##### Exemption for small-scale pig operators

12.—(1) These Regulations do not apply to the operator of an approved slaughterhouse at which fewer than 500 clean pigs per week as an annual average are slaughtered.

(2) Nid oes dim ym mharagraff (1) sy'n rhwystro'r Rheoliadau hyn rhag cael eu cymhwyso at weithredwr mewn perthynas â charcasau buchol, os oes anifeiliaid buchol llawn-dwf hefyd yn cael eu cigydda yn lladd-dy'r gweithredwr hwnnw.

### **Awdurdod cymwys: carcasau moch**

**13.**—(1) Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod cymwys at ddibenion y canlynol—

- (a) Erthygl 7(4) o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (dosbarthu a phwyso);
- (b) Erthygl 12(2)(b) o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (darpariaethau ychwanegol ar ddsbarthu drwy dechnegau graddio awtomataidd);
- (c) Erthyglau 13 a 14 o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn ac Erthygl 14 o Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (hysbysu prisiau'r farchnad a chyfrifo pris cyfartalog pob dosbarth);
- (d) Erthygl 17(2) o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (darpariaethau atodol ar hysbysu prisiau marchnad carcasau);
- (e) Erthygl 4(1) o Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (gwneud a chadw adroddiadau ar gyfer gwiriadau yn y fan a'r lle).

(2) Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am y canlynol—

- (a) Erthygl 11 o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (awdurdodi dulliau graddio awtomataidd);
- (b) Erthygl 25 o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (hysbysu'r Comisiwn);
- (c) gwiriadau yn y fan a'r lle, yn unol â'r disgrifiad o "on-the-spot checks" yn Erthyglau 2 a 3 o Reoliad Gweithredu'r Comisiwn.

### **Dulliau graddio awdurdodedig**

**14.**—(1) Rhaid ymgymryd â dosbarthu carcasau moch mewn lladd-dy cymeradwy—

- (a) drwy ddefnyddio dull graddio awdurdodedig y darperir ar ei gyfer yn Erthygl 11 o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn; a
- (b) drwy ddefnyddio technegau graddio y darperir ar eu cyfer yn Erthygl 11 o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn a'r rheiny'n cael eu gweithredu gan bersonél cymwys.

(2) Nothing in paragraph (1) prevents the application of these Regulations to an operator in relation to bovine carcasses if adult bovine animals are also slaughtered in that operator's slaughterhouse.

### **Competent authority: pig carcasses**

**13.**—(1) The Welsh Ministers are the competent authority for the purposes of—

- (a) Article 7(4) of the Commission Delegated Regulation (classification and weighing);
- (b) Article 12(2)(b) of the Commission Delegated Regulation (additional provisions on classification by automated grading techniques);
- (c) Articles 13 and 14 of the Commission Delegated Regulation and Article 14 of the Commission Implementing Regulation (reporting of market prices and calculation of average price per class);
- (d) Article 17(2) of the Commission Delegated Regulation (supplementary provisions for reporting of market prices for carcasses);
- (e) Article 4(1) of the Commission Implementing Regulation (making and keeping reports for on-the-spot checks).

(2) The Welsh Ministers are responsible for—

- (a) Article 11 of the Commission Delegated Regulation (authorisation of automated grading methods);
- (b) Article 25 of the Commission Delegated Regulation (notification to the Commission);
- (c) the on-the-spot checks as described in Articles 2 and 3 of the Commission Implementing Regulation.

### **Authorised grading methods**

**14.**—(1) The classification of pig carcasses must be carried out at an approved slaughterhouse—

- (a) using an authorised grading method provided for in Article 11 of the Commission Delegated Regulation; and
- (b) using grading techniques provided for in Article 11 of the Commission Delegated Regulation which are operated by qualified personnel.

(2) Yn y rheoliad hwn, mae “personél cymwys” yn cyfeirio at unrhyw berson sy’n hyfedr wrth ddefnyddio’r offer a’r technegau graddio sy’n cael eu gweithredu gan y person hwnnw.

### **Cofnodion yn lle marcio**

**15.** Caiff gweithredwr neu’r person sy’n gyfrifol am ddsbarthu moch, yn hytrach na marcio carcass yn unol â’r darpariaethau moch Ewropeaidd a nodir yn Rhan 2 o Atodlen 2, lunio cofnod ar gyfer y carcass hwnnw sy’n cynnwys o leiaf—

- (a) modd i adnabod y carcass yn unigol drwy unrhyw ddull nad oes modd ei newid;
- (b) pwysau cynnes y carcass; ac
- (c) canlyniad y dosbarthiad.

### **Cofnodion: carcassau moch**

**16.—(1)** Rhaid i weithredwr lladd-dy cymeradwy gadw cofnod o’r manylion a bennir yn Atodlen 4 ynglŷn â phob carcass mochyn a ddsberthir yn y lladd-dy hwnnw.

(2) Rhaid i’r gweithredwr ddal gafael ar bob cofnod am gyfnod o 12 mis o ddiwedd y flwyddyn galendr y mae’r cofnod yn berthynol iddi.

## **RHAN 5**

### **GORFODI A THROSEDDAU**

#### **Hysbysiadau**

**17.—(1)** Rhaid i unrhyw hysbysiad y mae’n ofynnol ei roi, neu yr awdurdodir ei roi, i unrhyw berson o dan y Rheoliadau hyn fod mewn ysgrifen.

(2) Caniateir i unrhyw hysbysiad o’r fath gael ei roi—

- (a) drwy ei drosglwyddo i’r person;
- (b) drwy ei adael yng nghyfeiriad priodol y person; neu
- (c) drwy ei anfon drwy’r post at y person yn y cyfeiriad hwnnw.

(3) Pan fo unrhyw hysbysiad o’r fath i gael ei roi i gorff corfforaethol, caniateir iddo gael ei roi i un o swyddogion y corff.

(4) At ddiben y rheoliad hwn, cyfeiriad priodol unrhyw berson y mae hysbysiad i gael ei roi iddo yw cyfeiriad hysbys olaf y person hwnnw, ac eithrio mai’r cyfeiriad priodol, yn achos corff corfforaethol neu un o swyddogion y corff, yw cyfeiriad swyddfa gofrestredig neu brif swyddfa’r corff hwnnw.

(2) In this regulation, “qualified personnel” refers to any person who is proficient in using the equipment and the grading techniques being operated by that person.

### **Records instead of marking**

**15.** An operator or the person responsible for the classification of pigs may, instead of marking a carcass in accordance with the European pig provisions set out in Part 2 of Schedule 2, draw up a record for that carcass which comprises at least—

- (a) the individual identification of the carcass by any unalterable means;
- (b) the warm weight of the carcass; and
- (c) the result of the classification.

### **Records: pig carcasses**

**16.—(1)** An operator of an approved slaughterhouse must keep a record of the particulars specified in Schedule 4 relating to each pig carcass which is classified in that slaughterhouse.

(2) The operator must retain each record for a period of 12 months from the end of the calendar year to which the record relates.

## **PART 5**

### **ENFORCEMENT AND OFFENCES**

#### **Notices**

**17.—(1)** Any notice required or authorised under these Regulations to be given to any person must be in writing.

(2) Any such notice may be given by—

- (a) delivering it to the person;
- (b) leaving it at the person’s proper address; or
- (c) sending it by post to the person at that address.

(3) Where any such notice is to be given to a body corporate, it may be given to an officer of the body.

(4) For the purpose of this regulation the proper address of any person to whom a notice is to be given is the person’s last known address, except that in the case of a body corporate or an officer of the body, the proper address is the address of the registered or principal office of the body.

(5) Yn y rheoliad hwn—

ystyr “cyfarwyddwr” (“*director*”), mewn perthynas â chorff corfforaethol y rheolir ei faterion gan ei aelodau, yw aelod o’r corff corfforaethol; ac

ystyr “swyddog” (“*officer*”), mewn perthynas â chorff corfforaethol, yw unrhyw gyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog cyffelyb arall i’r corff corfforaethol.

### Pwerau mynediad

18.—(1) Caiff swyddog awdurdodedig, ar unrhyw adeg resymol ac, os gofynnir iddo, ar ôl dangos awdurdodiad a ddilyswyd yn briodol, fynd i mewn i ladd-dy cymeradwy ac unrhyw fangre gysylltiedig, lle y gall carcasau fod yn cael eu trin, neu lle y gall cofnodion ynglŷn â’r carcasau hynny fod yn cael eu cadw, er mwyn canfod—

- (a) a oes unrhyw drosedd o dan y Rheoliadau hyn yn cael, neu wedi cael, ei chyflawni yn y fangre; neu
- (b) a oes unrhyw dystiolaeth yn y fangre o unrhyw drosedd o’r fath.

(2) Caiff y swyddog fynd ag unrhyw bersonau eraill y mae’n credu eu bod yn angenrheidiol gydag ef.

(3) Caiff ynad heddwch, drwy warant wedi ei llofnodi, ganiatáu i swyddog awdurdodedig fynd i mewn i unrhyw fangre, drwy rym rhesymol os bydd angen hynny, os yw wedi ei fodloni ar sail gwybodaeth ysgrifenedig a roddir ar lw—

- (a) bod sail resymol dros fynd i mewn i’r fangre at unrhyw ddiben ym mharagraff (1); a
- (b) bod unrhyw un neu ragor o’r amodau a ganlyn wedi eu bodloni—
  - (i) bod mynediad i’r fangre wedi ei wrthod, neu y rhagwelir y caiff ei wrthod, ac (yn y naill achos neu’r llall) fod hysbysiad o’r bwriad i wneud cais am warant wedi ei roi i’r gweithredwr;
  - (ii) y byddai gwneud cais am fynediad, neu roi hysbysiad o’r fath, yn tanseilio’r diben o fynd i mewn;
  - (iii) bod yr achos yn achos brys; neu
  - (iv) bod y fangre’n wag neu fod y gweithredwr yn absennol dros dro,

(4) Mae gwarant a ganiateir o dan y rheoliad hwn yn parhau mewn grym am dri mis.

(5) Rhaid i swyddog sy’n mynd i mewn i unrhyw fangre wag, neu fangre sydd â’i gweithredwr yn absennol dros dro, adael y fangre wedi ei diogelu mor effeithiol rhag mynediad diawdurdod ag yr oedd cyn i’r swyddog fynd i mewn.

(5) In this regulation—

“director” (“*cyfarwyddwr*”), in relation to a body corporate whose affairs are managed by its members, means a member of the body corporate; and

“officer” (“*swyddog*”), in relation to a body corporate, means any director, manager, secretary or other similar officer of the body corporate.

### Powers of entry

18.—(1) An authorised officer may at any reasonable hour and on producing, if so required, a duly authenticated authorisation, enter an approved slaughterhouse and any associated premises in which carcasses may be handled or records relating to those carcasses may be kept, for the purpose of ascertaining whether—

- (a) any offence under these Regulations is being or has been committed on the premises; or
- (b) there is on the premises any evidence of any such offence.

(2) The officer may be accompanied by such other persons as the officer considers necessary.

(3) A justice of the peace may by signed warrant permit an authorised officer to enter any premises, if necessary by reasonable force, if satisfied on sworn information in writing that—

- (a) there is reasonable ground for entry into the premises for any purpose in paragraph (1); and
- (b) any of the following conditions are met—

- (i) admission to the premises has been refused, or a refusal is anticipated and (in either case) notice of intention to apply for a warrant has been given to the operator;
- (ii) asking for admission, or the giving of such notice, would defeat the object of the entry;
- (iii) the case is one of urgency; or
- (iv) the premises are unoccupied, or the operator is temporarily absent.

(4) A warrant granted under this regulation continues in force for three months.

(5) An officer who enters any unoccupied premises, or premises from which the operator is temporarily absent, must leave them as effectively secured against unauthorised entry as they were before entry.



## Pwerau swyddogion awdurdodedig

19. Caiff swyddog awdurdodedig sy'n mynd i mewn i fangre o dan y Rheoliadau hyn—

- (a) arolygu unrhyw garcas buchol neu garcas mochyn neu ran o garcas o'r fath, neu unrhyw garcas neu ran o garcas y mae'r swyddog yn amau'n rhesymol ei fod yn garcas buchol neu garcas mochyn neu ran o garcas o'r fath;
- (b) archwilio unrhyw gofnod y mae'n ofynnol i weithredwr ei gadw o dan reoliad 11 neu 16 neu o dan Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn neu Reoliad Gweithredu'r Comisiwn, a phan ddefnyddir cyfrifiadur i gadw'r cofnod hwnnw, cael mynediad i unrhyw gyfrifiadur a chyfarpar neu ddeunydd cysylltiedig, a ddefnyddir neu a ddefnyddiwyd mewn cysylltiad â'r cofnod hwnnw, ac arolygu a gwirio gweithrediad y cyfryw gyfrifiadur a chyfarpar neu ddeunydd cysylltiedig;
- (c) ei gwneud yn ofynnol i gopïau neu ddarnau o unrhyw gofnod o'r fath gael eu dangos a, pan ddefnyddir cyfrifiadur i gadw'r cofnod hwnnw, ei gwneud yn ofynnol i'r cofnod gael ei ddangos ar ffurf a fydd yn caniatáu iddo gael ei gludo ymaith; a
- (d) dal gafael ar unrhyw gofnod o'r fath y mae gan y swyddog reswm dros gredu y gall fod yn angenrheidiol fel tystiolaeth mewn achos o dan y Rheoliadau hyn.

## Hysbysiadau gorfodi

20.—(1) Os oes gan Weinidogion Cymru reswm dros gredu bod person wedi cyflawni trosedd o dan y Rheoliadau hyn, caiff Gweinidogion Cymru roi hysbysiad gorfodi i'r person hwnnw yn unol â pharagraff (2).

(2) Rhaid i hysbysiad gorfodi—

- (a) datgan ar ba sail y mae Gweinidogion Cymru'n credu bod trosedd wedi ei chyflawni;
- (b) pennu'r mater sy'n cyfansoddi'r drosedd;
- (c) pennu'r hyn y mae'n rhaid i'r person hwnnw beidio â'i wneud, neu'r mesurau y mae'n rhaid, ym marn Gweinidogion Cymru, i'r person hwnnw eu cymryd er mwyn cydymffurfio â'r Rheoliadau hyn;
- (d) ei gwneud yn ofynnol i'r person beidio â chyflawni'r weithred a bennir yn yr hysbysiad, neu gymryd y mesurau a bennir yn yr hysbysiad, neu fesurau sydd o leiaf yn gyfwerth â'r rheiny, o fewn y cyfnod (nad yw'n llai na 14 diwrnod) a bennir yn yr hysbysiad;

## Powers of authorised officers

19. An authorised officer entering premises under these Regulations may—

- (a) inspect any bovine carcase or pig carcase or part of such a carcase, or any carcase or part of a carcase which the officer reasonably suspects to be a bovine or pig carcase or part of such a carcase;
- (b) examine any record which an operator is required to keep under regulation 11 or 16 or under the Commission Delegated Regulation or the Commission Implementing Regulation, and where any such record is kept by means of a computer, have access to and inspect and check the operation of any computer and associated apparatus or material which is or has been in use in connection with that record;
- (c) require that copies of or extracts from any such record be produced and, where such record is kept by means of a computer, require it to be produced in a form in which it may be taken away; and
- (d) retain any such record which the officer has reason to believe may be required as evidence in proceedings under these Regulations.

## Enforcement notices

20.—(1) If the Welsh Ministers have reason to believe that a person has committed an offence under these Regulations, the Welsh Ministers may give that person an enforcement notice in accordance with paragraph (2).

(2) An enforcement notice must—

- (a) state the Welsh Ministers' grounds for believing that an offence has been committed;
- (b) specify the matter that constitutes the offence;
- (c) specify what that person must stop doing, or the measures that, in the Welsh Ministers' opinion, the person must take in order to comply with these Regulations;
- (d) require the person to stop doing the action specified in the notice, or to take the measures specified in the notice or measures at least equivalent to them, within the period (being not less than 14 days) specified in the notice;

- (e) hysbysu'r person am yr hawl i apelio a roddir gan reoliad 21; ac
- (f) hysbysu'r person o fewn pa gyfnod y caniateir i apêl o'r fath gael ei gwneud.

(3) Mae unrhyw berson sy'n torri hysbysiad gorfodi neu'n methu â chydymffurfio ag ef yn euog o drosedd.

### Apelau yn erbyn hysbysiadau gorfodi

**21.**—(1) Caiff person apelio i lys ynadon yn erbyn hysbysiad gorfodi os oes gan y person hwnnw reswm dros gredu na ddylai'r hysbysiad fod wedi ei roi.

(2) Caiff person apelio o fewn y cyfnod o un mis sy'n cychwyn gyda'r dyddiad y rhoddwyd yr hysbysiad.

(3) Y weithdrefn a ddilynir yw gwneud cwyn am orchymyn; a bydd Deddf Llysoedd Ynadon 1980(1) yn gymwys i'r achos.

(4) Ar apêl, caiff y llys naill ai ddiddymu'r hysbysiad neu ei gadarnhau, ac os bydd yn ei gadarnhau caiff wneud hynny naill ai yn ei ffurf wreiddiol neu gyda pha addasiadau bynnag y mae'r llys yn meddwl eu bod yn briodol.

### Hysbysiadau cosb

**22.**—(1) Os oes gan Weinidogion Cymru reswm dros gredu bod person wedi cyflawni trosedd o dan y Rheoliadau hyn, caiff Gweinidogion Cymru roi hysbysiad (“hysbysiad cosb”) i'r person hwnnw yn unol â pharagraffau (2) a (3).

(2) Caiff hysbysiad cosb fod am unrhyw swm.

(3) Rhaid i hysbysiad cosb—

- (a) rhoi unrhyw fanylion am amgylchiadau'r drosedd honedig sy'n angenrheidiol i roi gwybodaeth resymol am y drosedd;
- (b) datgan swm y gosb;
- (c) datgan yn ystod pa gyfnod, yn rhinwedd rheoliad 23, na chychwynnir achos ynglŷn â'r drosedd;
- (d) datgan i ba berson ac ym mha gyfeiriad y gellir talu'r gosb; ac
- (e) datgan ym mha fodd y caniateir i'r taliad gael ei wneud.

(e) inform the person of the right of appeal conferred by regulation 21; and

(f) inform the person of the period within which such an appeal may be brought.

(3) Any person who contravenes or fails to comply with an enforcement notice is guilty of an offence.

### Appeals against enforcement notices

**21.**—(1) A person may appeal to a magistrates' court against an enforcement notice if that person has reason to believe that the notice should not have been given.

(2) A person may appeal within the period of one month beginning with the date on which the notice was given.

(3) The procedure is by way of complaint for an order; and the Magistrates' Court Act 1980(1) applies to the proceedings.

(4) On an appeal the court may either cancel or affirm the notice and, if the court affirms the notice, it may do so either in its original form or with such modifications as the court thinks fit.

### Penalty notices

**22.**—(1) If the Welsh Ministers have reason to believe that a person has committed an offence under these Regulations, the Welsh Ministers may give that person a notice (a “penalty notice”) in accordance with paragraphs (2) and (3).

(2) A penalty notice may be of any amount.

(3) A penalty notice must—

- (a) give such particulars of the circumstances alleged to constitute the offence as are necessary for giving reasonable information about the offence;
- (b) state the amount of the penalty;
- (c) state the period during which, by virtue of regulation 23, proceedings will not be taken for the offence;
- (d) state the person to whom and the address at which the penalty may be paid; and
- (e) state the means by which payment of the penalty may be made.

(1) 1980 p. 43; amnewidiwyd adrannau 51 a 52 gan Ddeddf Llysoedd 2003 (p. 39), adran 47.

(1) 1980 c. 43; sections 51 and 52 have been substituted by the Courts Act 2003 (c. 39), section 47.

### **Cyfyngiad ar ddwyn achos am drosedd cosb**

**23.**—(1) Pan fo hysbysiad cosb wedi ei roi i berson—

- (a) ni chaniateir dwyn achos yn erbyn y person hwnnw am y drosedd y mae'r hysbysiad yn ymwneud â hi cyn diwedd y cyfnod o 28 diwrnod sy'n cychwyn ar y dyddiad y rhoddwyd yr hysbysiad; a
- (b) ni chaniateir euogfarnu'r person hwnnw am y drosedd os telir y gosb yn unol â rheoliad 24 cyn diwedd y cyfnod hwnnw.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys os tynnir yr hysbysiad cosb yn ôl yn unol â rheoliad 25.

### **Talu'r gosb**

**24.**—(1) Rhaid talu unrhyw gosb i Weinidogion Cymru drwy ei hanfon drwy'r post neu drwy unrhyw ddull a bennir yn yr hysbysiad cosb.

(2) Mewn unrhyw achos, bydd tystysgrif yr honnir ei bod wedi ei llofnodi gan Weinidogion Cymru neu ar eu rhan yn datgan bod taliad o gosb wedi ei gael neu heb ei gael erbyn y dyddiad a bennir yn y dystysgrif yn dystiolaeth o'r ffeithiau a ddatgenir.

### **Tynnu hysbysiad cosb yn ôl**

**25.**—(1) Caniateir i hysbysiad cosb gael ei dynnu'n ôl os oes gan Weinidogion Cymru reswm dros gredu na ddylai fod wedi ei roi (pa un ai i'r person a enwyd yn yr hysbysiad cosb, neu fel arall).

(2) Caniateir i hysbysiad cosb gael ei dynnu'n ôl gan Weinidogion Cymru drwy roi hysbysiad i'r person a enwyd yn yr hysbysiad cosb cyn i'r gosb gael ei thalu neu ar ôl i'r gosb gael ei thalu.

(3) Pan dynnir hysbysiad cosb yn ôl, rhaid i Weinidogion Cymru ad-dalu unrhyw gosb a dalwyd o dan yr hysbysiad cosb i'r person a enwyd yn yr hysbysiad cosb o fewn 28 diwrnod, gan gychwyn gyda'r dyddiad yr anfonwyd yr hysbysiad bod yr hysbysiad cosb wedi ei dynnu'n ôl.

### **Troseddau: darpariaethau eidion Ewropeaidd**

**26.** Mae unrhyw berson sydd—

- (a) yn methu â chydymffurfio ag unrhyw ofyniad o dan ddarpariaeth eidion Ewropeaidd; neu
- (b) yn torri unrhyw waharddiad a gynhwysir mewn darpariaeth eidion Ewropeaidd,

yn euog o drosedd.

### **Restriction on proceedings for penalty offence**

**23.**—(1) Where a person is given a penalty notice—

- (a) no proceedings may be brought against that person for the offence to which that notice relates before the end of the period of 28 days, beginning on the date on which the notice was given; and
- (b) that person may not be convicted of the offence if the penalty is paid in accordance with regulation 24 before the end of that period.

(2) Paragraph (1) does not apply if the penalty notice is withdrawn in accordance with regulation 25.

### **Payment of penalty**

**24.**—(1) Payment of any penalty must be made to the Welsh Ministers by sending it by post or by such method as may be specified in the penalty notice.

(2) In any proceedings a certificate purporting to be signed by or on behalf of the Welsh Ministers stating that payment of a penalty was or was not received by the date specified in the certificate is evidence of the facts stated.

### **Withdrawal of penalty notice**

**25.**—(1) A penalty notice may be withdrawn if the Welsh Ministers have reason to believe that it ought not to have been given (whether to the person named in the penalty notice or otherwise).

(2) A penalty notice may be withdrawn by the Welsh Ministers giving notice to the person named in the penalty notice before or after payment of the penalty.

(3) Where a penalty notice is withdrawn, the Welsh Ministers must repay any penalty paid under the penalty notice to the person named in the penalty notice within 28 days, beginning with the date on which notice of the withdrawal of the penalty notice was sent.

### **Offences: European beef provisions**

**26.** Any person who—

- (a) fails to comply with any requirement under a European beef provision; or
- (b) contravenes any prohibition contained in a European beef provision,

is guilty of an offence.

### **Troseddau: darpariaethau moch Ewropeaidd**

27.—(1) Mae unrhyw berson sydd—

- (a) yn methu â chydymffurfio ag unrhyw ofyniad o dan ddarpariaeth moch Ewropeaidd; neu
- (b) yn torri unrhyw waharddiad a gynhwysir mewn darpariaeth moch Ewropeaidd,

yn euog o drosedd.

(2) Ond pan fydd gweithredwr neu'r person sy'n gyfrifol am ddsbarthu carcassau moch yn llunio cofnod gan gydymffurfio â'r amodau y cyfeirir atynt yn rheoliad 15 (cofnodion yn lle marcio) ni chyflawnir trosedd drwy fethu â chydymffurfio â darpariaeth moch Ewropeaidd Rhan 2 neu drwy ei thorri.

(3) Yn y rheoliad hwn, ystyr, “darpariaeth moch Ewropeaidd Rhan 2” yw darpariaeth a bennir yng ngholofn (2) o Ran 2 o Atodlen 2.

### **Troseddau: hysbysiadau gan weithredwyr**

28. Mae unrhyw berson sy'n methu â chydymffurfio ag unrhyw un neu ragor o ofynion rheoliad 5 (hysbysiadau gan weithredwyr) yn euog o drosedd.

### **Troseddau: trwyddedau (carcassau buchol)**

29.—(1) Os ymglymerir â dosbarthu carcass buchol mewn lladd-dy cymeradwy—

- (a) heb drwydded a ganiatawyd o dan reoliad 8, neu
- (b) gan dorri unrhyw un neu ragor o amodau neu delerau trwydded o'r fath,

mae'r person sy'n ymgymryd â'r dosbarthu a gweithredwr y lladd-dy hwnnw ill dau'n euog o drosedd.

(2) Os ymglymerir â dosbarthu carcass buchol mewn lladd-dy cymeradwy drwy ddefnyddio offer graddio awtomataidd—

- (a) heb drwydded a ganiatawyd o dan reoliad 9 i ddefnyddio'r offer hwnnw yn y lladd-dy hwnnw, neu
- (b) gan dorri unrhyw un neu ragor o amodau neu delerau trwydded o'r fath,

mae'r person sy'n ymgymryd â'r dosbarthu hwnnw a gweithredwr y lladd-dy hwnnw ill dau'n euog o drosedd.

(3) Mae unrhyw berson sy'n gwneud newid mewn trwydded a ganiatawyd o dan reoliad 8 neu 9 yn euog o drosedd.

### **Offences: European pig provision**

27.—(1) Any person who—

- (a) fails to comply with any requirement under a European pig provision; or
- (b) contravenes any prohibition contained in a European pig provision,

is guilty of an offence.

(2) But where an operator or the person responsible for the classification of pig carcasses draws up a record in compliance with the conditions referred to in regulation 15 (records instead of marking) no offence is committed by failure to comply with or contravening a Part 2 European pig provision.

(3) In this regulation, “Part 2 European pig provision” means a provision which is specified in column (2) of Part 2 of Schedule 2.

### **Offences: notifications by operators**

28. Any person who fails to comply with any requirement of regulation 5 (notification by operators) is guilty of an offence.

### **Offences: licences (bovine carcasses)**

29.—(1) If classification of a bovine carcass is carried out at an approved slaughterhouse—

- (a) without a licence granted under regulation 8, or
- (b) in breach of any term or condition of such a licence,

the person who carries out the classification and the operator of that slaughterhouse are each guilty of an offence.

(2) If classification of a bovine carcass is carried out at an approved slaughterhouse by means of automated grading equipment—

- (a) without a licence granted under regulation 9 for the use of that equipment at that slaughterhouse, or
- (b) in breach of any term or condition of such a licence,

the person who carries out that classification and the operator of that slaughterhouse are each guilty of an offence.

(3) Any person who makes an alteration to a licence granted under regulation 8 or 9 is guilty of an offence.

**Troseddau: dulliau graddio awdurdodedig (carcasau moch)**

**30.** Os ymgymerir â dosbarthu carcas mochyn mewn lladd-dy cymeradwy drwy ddefnyddio dull graddio neu dechneg graddio mewn modd nad yw'n cydymffurfio â gofynion rheoliad 14, mae'r person sy'n ymgymryd â'r dosbarthu a gweithredwr y lladd-dy hwnnw ill dau'n euog o drosedd.

**Troseddau: cofnodion a marciau**

**31.—(1)** Mae unrhyw berson sy'n methu â chydymffurfio ag unrhyw un neu ragor o ofynion rheoliad 11 (cofnodion: carcasau buchol) neu reoliad 16 (cofnodion: carcasau moch) yn euog o drosedd.

(2) Mae unrhyw berson sy'n marcio carcas buchol neu ran o garcas o'r fath—

- (a) fel y rhagnodir gan Erthygl 8(1), (2)(a), (3)(a) (o'u darllen gydag ail baragraff Erthygl 8(3)), (4) a (5) o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn, neu
- (b) mewn modd sy'n debyg iawn i'r marc a ragnodir yn y darpariaethau hynny,

sy'n debygol o gamarwain, yn euog o drosedd.

(3) Mae unrhyw berson sy'n marcio carcas mochyn neu ran o garcas o'r fath—

- (a) fel y rhagnodir gan Erthygl 8(1), (2)(b), (3)(c) (o'u darllen gydag ail baragraff Erthygl 8(3)), (4) a (5) o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn, neu
- (b) mewn modd sy'n debyg iawn i'r marc a ragnodir yn y darpariaethau hynny,

sy'n debygol o gamarwain, yn euog o drosedd.

**Troseddau: rhwystro etc.**

**32.** Mae unrhyw berson—

- (a) sydd heb esgus rhesymol, yn rhwystro unrhyw berson sy'n gweithredu o dan y Rheoliadau hyn,
- (b) sydd heb achos rhesymol, yn methu â rhoi i unrhyw berson sy'n gweithredu o dan y Rheoliadau hyn unrhyw gymorth neu wybodaeth y mae'r person hwnnw yn rhesymol yn ei gwneud yn ofynnol er mwyn cyflawni swyddogaethau o dan y Rheoliadau hyn,
- (c) sy'n rhoi i unrhyw berson sy'n gweithredu o dan y Rheoliadau hyn unrhyw wybodaeth gan wybod ei bod yn ffug neu'n gamarweiniol, neu

**Offences: authorised grading methods (pig carcasses)**

**30.** If classification of a pig carcase is carried out at an approved slaughterhouse using a grading method or grading technique in a manner which fails to comply with the requirements of regulation 14, the person who carries out the classification and the operator of that slaughterhouse are each guilty of an offence.

**Offences: records and marks**

**31.—(1)** Any person who fails to comply with any requirement of regulation 11 (records: bovine carcasses) or regulation 16 (records: pig carcasses) is guilty of an offence.

(2) Any person who marks a bovine carcase or part of such a carcase—

- (a) as prescribed by Article 8(1), (2)(a), (3)(a) (read with the second paragraph of Article 8(3)), (4) and (5) of the Commission Delegated Regulation, or
- (b) in a way closely resembling the marking prescribed by those provisions,

which is likely to mislead, is guilty of an offence.

(3) Any person who marks a pig carcase or part of such a carcase—

- (a) as prescribed by Article 8(1), (2)(b), (3)(c) (read with the second paragraph of Article 8(3)), (4) and (5) of the Commission Delegated Regulation, or
- (b) in a way closely resembling the marking prescribed by those provisions,

which is likely to mislead, is guilty of an offence.

**Offences: obstruction etc.**

**32.** Any person who—

- (a) without reasonable excuse, obstructs any person acting under these Regulations,
- (b) without reasonable cause, fails to give any person acting under these Regulations any assistance or information that that person may reasonably require for the purpose of carrying out functions under these Regulations,
- (c) gives any person acting under these Regulations any information knowing it to be false or misleading, or



- (d) sy'n methu â dangos unrhyw ddogfen neu gofnod pan fo unrhyw berson sy'n gweithredu o dan y Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol iddo wneud hynny,

yn euog o drosedd.

### **Y cyfnod ar gyfer dwyn erlyniad**

**33.**—(1) Caniateir i achos am drosedd o dan reoliadau 20(3), 26, 27, 28, 29, 30, 31(1) neu 32 gael ei ddwyn o fewn cyfnod o 12 mis o'r dyddiad y daeth yr erlynydd i wybod gyntaf am dystiolaeth ddigonol, ym marn yr erlynydd, i gyfiawnhau achos.

(2) Ond ni chaniateir i achos o'r fath gael ei ddwyn ymhen mwy na 18 mis ers i'r drosedd gael ei chyflawni.

(3) At ddibenion paragraff (1)—

- (a) mae tystysgrif a lofnodwyd gan yr erlynydd neu ar ei ran ac sy'n datgan y dyddiad y daeth yr erlynydd i wybod gyntaf am dystiolaeth ddigonol i gyfiawnhau'r achos yn dystiolaeth derfynol o'r ffaith honno;
- (b) bernir bod tystysgrif sy'n datgan y mater ac sy'n honni ei bod wedi ei llofnodi felly wedi ei llofnodi felly, oni phrofir i'r gwrthwyneb.

### **Troseddau gan gyrff corfforaethol**

**34.**—(1) Os profir bod trosedd o dan y Rheoliadau hyn a gyflawnwyd gan gorff corfforaethol wedi ei chyflawni drwy gydsyniad neu ymoddefiad swyddog, neu i'w phriodoli i unrhyw esgeulustod ar ran swyddog, mae'r swyddog hwnnw yn ogystal â'r corff corfforaethol yn euog o'r drosedd ac yn agored i'w erlyn a'i gosbi yn unol â hynny.

(2) Pan fo materion corff corfforaethol yn cael eu rheoli gan ei aelodau, mae paragraff (1) yn gymwys mewn perthynas â gweithredoedd ac anweithredoedd aelod, mewn cysylltiad â swyddogaethau'r aelod hwnnw o reoli, fel pe bai'r aelod hwnnw'n gyfarwyddwr i'r corff.

(3) Yn y rheoliad hwn, ystyr "swyddog" mewn perthynas â chorff corfforaethol yw cyfarwyddwr, aelod o'r pwyllgor rheoli, prif weithredwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog cyffelyb arall i'r corff, neu berson sy'n honni gweithredu mewn unrhyw swydd o'r fath.

### **Amddiffyniad diwydrwydd dyladwy**

**35.** Mae'n amddiffyniad os gall person a gyhuddir o drosedd o dan y Rheoliadau hyn ("P"), brofi bod P wedi cymryd pob rhagofal rhesymol ac wedi arfer pob diwydrwydd dyladwy i osgoi cyflawni'r drosedd gan P neu gan berson o dan reolaeth P.

- (d) fails to produce any document or record when required to do so by any person acting under these Regulations,

is guilty of an offence.

### **Period for bringing prosecution**

**33.**—(1) Proceedings for an offence under regulations 20(3), 26, 27, 28, 29, 30, 31(1) or 32 may be brought within a period of 12 months from the date on which the prosecutor first knows of evidence sufficient, in the prosecutor's opinion, to justify proceedings.

(2) But no such proceedings may be brought more than 18 months from the commission of the offence.

(3) For the purposes of paragraph (1)—

- (a) a certificate signed by or on behalf of the prosecutor and stating the date on which the prosecutor first knew of evidence sufficient to justify the proceedings is conclusive evidence of that fact;
- (b) a certificate stating the matter and purporting to be so signed is deemed to be so signed unless the contrary is proved.

### **Offences by bodies corporate**

**34.**—(1) If an offence under these Regulations committed by a body corporate is shown to have been committed with the consent or connivance of, or to be attributable to any neglect on the part of, an officer, that officer as well as the body corporate is guilty of the offence and is liable to be proceeded against and punished accordingly.

(2) If the affairs of a body corporate are managed by its members, paragraph (1) applies in relation to the acts and defaults of a member in connection with that member's functions of management as if that member were a director of the body.

(3) In this regulation, "officer", in relation to a body corporate, means a director, member of the committee of management, chief executive, manager, secretary or other similar officer of the body, or a person purporting to act in any such capacity.

### **Defence of due diligence**

**35.** It is a defence for a person charged with an offence under these Regulations ("P") to prove that P took all reasonable precautions and exercised all due diligence to avoid the commission of the offence by P or by a person under P's control.

**Troseddau: cosbi**

36.—(1) Mae person sy'n euog o drosedd o dan y canlynol—

- (a) rheoliad 20(3) (hysbysiadau gorfodi),
- (b) rheoliad 26 (darpariaethau eidion Ewropeaidd),
- (c) rheoliad 27 (darpariaethau moch Ewropeaidd),
- (d) rheoliad 28 (hysbysiadau gan weithredwyr),
- (e) rheoliad 29 (trwyddedau (carcasau buchol)),
- (f) rheoliad 30 (dulliau graddio awdurdodedig: (carcasau moch)),
- (g) rheoliad 31(1) (cofnodion), neu
- (h) rheoliad 32 (rhwystro etc.),

yn agored, o'i euogfarnu'n ddiannod, i ddirwy.

(2) Mae person sy'n euog o drosedd o dan rheoliad 31(2) neu (3) (marciau camarweiniol etc.) yn agored—

- (a) o'i euogfarnu'n ddiannod, i ddirwy; neu
- (b) o'i euogfarnu ar ddiad, i ddirwy.

**Offences: punishment**

36.—(1) A person guilty of an offence under—

- (a) regulation 20(3) (enforcement notices),
- (b) regulation 26 (European beef provisions),
- (c) regulation 27 (European pig provisions),
- (d) regulation 28 (notifications by operators),
- (e) regulation 29 (licences (bovine carcasses)),
- (f) regulation 30 (authorised grading methods: pig carcasses)),
- (g) regulation 31(1) (records), or
- (h) regulation 32 (obstruction etc.),

is liable on summary conviction to a fine.

(2) A person guilty of an offence under regulation 31(2) or (3) (misleading marks etc.) is liable—

- (a) on summary conviction to a fine; or
- (b) on conviction on indictment, to a fine.

*Lesley Griffiths*

Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru  
22 Tachwedd 2018

Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs, one of the Welsh Ministers  
22 November 2018

Darpariaethau Ewropeaidd: carcasau buchol

European provisions: bovine carcasses

<i>(1) Y Rheoliad sy'n cynnwys y ddarpariaeth Ewropeaidd</i>	<i>(2) Y ddarpariaeth</i>	<i>(3) Y cynnwys</i>	<i>(1) Regulation containing European provision</i>	<i>(2) Provision</i>	<i>(3) Subject matter</i>
Rheoliad (EU) 2013	Erthygl 10 ac Atodiad IV, pwynt A(II), ynghyd ag Erthygl 1 o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (o'u darllen gyda Rheoliadau Adnabod Gwartheg (Cymru) 2007(1))	Gofyniad i ddynodi categori'r carcas fel y'i pennir yn y darpariaethau hyn	Regulation (EU) 2013	Article 10 and Annex IV, point A(II), together with Article 1 of the Commission Delegated Regulation (read with the Cattle Identification (Wales) Regulations 2007(1))	Requirement to indicate the category of carcase as specified in these provisions
	Erthygl 10 ac Atodiad IV, pwynt A(III), ynghyd ag Erthygl 3(1) o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn, ac Atodiad 1 iddo	Gofyniad i ddynodi, mewn perthynas â charcas, dosbarth y cydffurfiad a'r gorchudd braster fel y'i pennir yn y darpariaethau hyn		Article 10 and Annex IV, point A(III), together with Article 3(1) of, and Annex 1 to, the Commission Delegated Regulation	Requirement to indicate, in relation to a carcase, the class of conformation and fat cover as specified in these provisions
	Erthygl 10 ac Atodiad IV, pwynt A(IV)	Gofyniad i gyflwyno carcasau yn y dull penodedig		Article 10 and Annex IV, point A(IV)	Requirement to present carcasses in the specified manner
	Erthygl 10 ac Atodiad IV, pwynt A(V), yr is-baragraff cyntaf	Gofyniad i ladd-dai cymeradwy ddsbarthu a nodi carcasau yn unol â graddfa'r Undeb		Article 10 and Annex IV, point A(V), first subparagraph	Requirement for approved slaughterhouses to classify and identify carcasses in accordance with the Union scale

(1) O.S. 2007/842 (Cy. 74). Mae Rheoliadau Adnabod Gwartheg (Cymru) 2007 yn sefydlu system adnabod a chofrestru anifeiliaid buchol yng Nghymru, fel y'i pennir yn Erthygl 1 o Reoliad (EU) 2013.

(1) S.I. 2007/842 (W. 74). The Cattle Identification (Wales) Regulations 2007 establish a bovine animal identification and registration system in Wales, as specified in Article 1 of Regulation (EU) 2013.

Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn	Erthygl 6(1)	Gwahardd tynnu braster, cyhyr neu feinwe arall cyn pwyso, graddio a marcio	Commission Delegated Regulation	Article 6(1)	Prohibition on removing fat, muscle or other tissue before weighing, grading and marking
	Erthygl 6(3)	Gofyniad i gyflwyno'r carcas yn y dull penodedig, er mwyn canfod prisiau'r farchnad		Article 6(3)	Requirement to present carcase in specified manner, for the purpose of establishing market prices
	Erthygl 7(1)	Gofyniad ynghylch lle ac amser y dosbarthu		Article 7(1)	Requirement as to the place and time of classification
	Erthygl 7(3)(a)	Gofynion ynghylch amser y dosbarthu a'r pwyso		Article 7(3)(a)	Requirements as to the time of classification and weighing
	Erthygl 7(5)	Gofyniad ynghylch amser y dosbarthu mewn achosion lle y mae dull graddio awtomataidd yn methu dosbarthu carcas		Article 7(5)	Requirement as to time of classification in cases where automated graded method fails to classify carcase
	Erthygl 8(1), 8(2)(a), Erthygl 8(3)(a) o'u darllen gydag ail baragraff yr Erthygl honno, Erthygl 8(4)	Gofynion ynghylch marcio carcasau i ddynodi categori a dosbarth y cydffurfiad a'r gorchudd braster		Article 8(1), 8(2)(a), Article 8(3)(a) read with the second paragraph of that Article, Article 8(4)	Requirements as to the marking of carcasses to indicate the category and class of conformation and fat cover
	Erthygl 8(5)	Gofynion mewn perthynas â labelu carcas		Article 8(5)	Requirements in relation to labelling of a carcase
	Erthygl 10(7)	Gwahardd addasu manylebau technegol dulliau graddio awtomataidd awdurdodedig heb gymeradwyaeth Gweinidogion Cymru		Article 10(7)	Prohibition on modifications of the technical specifications of authorised automatic grading methods without approval of the Welsh Ministers

	Erthygl 12	Gofynion ynghylch dosbarthu drwy dechnegau graddio awtomataidd		Article 12	Requirements as to classification by automated grading techniques
	Erthygl 14(1), (2) a (3)	Gofyniad ynghylch pwyso'r carcass er mwyn hysbysu prisiau'r farchnad		Article 14(1), (2) and (3)	Requirement concerning the weighing of the carcass for the reporting of market prices
	Erthygl 14(4)	Gofynion ynghylch hysbysu prisiau fesul dosbarth		Article 14(4)	Requirements as to reporting of prices per class
	Erthygl 17(2) o ran y modd y'i cymhwysir at daliadau atodol am garcasau	Gofynion ynghylch hysbysu unrhyw daliadau atodol		Article 17(2) in its application to supplementary payments for carcasses	Requirements as to notification of any supplementary payments
Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn	Erthygl 1	Gofynion ynghylch y cyfathrebiad rhagnodedig	Commission Implementing Regulation	Article 1	Requirements as to the prescribed communication
	Is-baragraffau un a thri o Erthygl 5(1) a'r Atodiad	Gofynion ynghylch addasiadau i bwysau'r carcass		Sub-paragraphs one and three of Article 5(1) and the Annex	Requirements as to the adjustments to the weight of the carcass
	Erthygl 7	Gofyniad ynghylch dosbarthiadau ar gyfer cofnodi prisiau marchnad carcassau eidion		Article 7	Requirement as to classes for recording of market prices for beef carcasses
	Erthygl 8(1), (3) a (4)	Gofyniad ynghylch cofnodi prisiau'r farchnad		Article 8(1), (3) and (4)	Requirement as to recording of market prices



Darpariaeth Ewropeaidd: carcasau moch

European provision: pig carcasses

RHAN 1

PART 1

<i>(1) Y Rheoliad sy'n cynnwys y ddarpariaeth Ewropeaidd</i>	<i>(2) Y ddarpariaeth</i>	<i>(3) Y cynnwys</i>	<i>(1) Regulation containing European provision</i>	<i>(2) Provision</i>	<i>(3) Subject matter</i>
Rheoliad (EU) 2013	Erthygl 10 ac Atodiad IV, pwynt B(II)	Gofyniad i ddsbarthu carcasau i un o'r dosbarthiadau penodedig	Regulation (EU) 2013	Article 10 and Annex IV, point B(II)	Requirement to classify carcasses into one of the specified classes
	Erthygl 10 ac Atodiad IV, pwynt B(III), fel y'i haddaswyd gan Erthyglau 3 a 4 o Benderfyniad y Comisiwn 2004/370/EC yn awdurdodi dulliau ar gyfer graddio carcasau moch yn y Deyrnas Unedig(1)	Gofyniad i gyflwyno carcasau yn y dull penodedig		Article 10 and Annex IV, point B(III), as modified by Articles 3 and 4 of Commission Decision 2004/370/EC authorising methods for grading pig carcasses in the United Kingdom(1)	Requirement to present carcasses in the specified manner
	Erthygl 10 ac Atodiad IV, pwynt B(IV), is-baragraff 1, ynghyd ag Erthygl 1 o Benderfyniad y Comisiwn 2004/370/EC, ac Atodiad I iddo, yn awdurdodi dulliau ar gyfer graddio carcasau moch yn y Deyrnas Unedig	Gofyniad i raddio carcasau drwy ddulliau a awdurdodir gan y Comisiwn		Article 10 and Annex IV, point B(IV), subparagraph 1, together with Article 1 of, and Annex I to, Commission Decision 2004/370/EC authorising methods for grading pig carcasses in the United Kingdom	Requirement to grade carcasses by methods authorised by the Commission

(1) OJ Rhif L 116, 22.4.2004, t. 32, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Benderfyniad y Comisiwn 2006/374/EC (OJ Rhif L 142, 30.5.2006, t. 34).

(1) OJ No L 116, 22.4.2004, p. 32, as last amended by Commission Decision 2006/374/EC (OJ No L 142, 30.5.2006, p. 34).

Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn	Erthygl 6(1)	Gwahardd tynnu braster, cyhyr neu feinwe arall cyn pwyso, graddio a marcio	Commission Delegated Regulation	Article 6(1)	Prohibition on removing fat, muscle or other tissue before weighing, grading and marking
	Erthygl 7(1)	Gofyniad ynghylch lle ac amser y dosbarthu		Article 7(1)	Requirement as to the place and time of classification
	Erthygl 7(3)(b) a 7(4)(a)	Gofynion ynghylch pwyso'r carcass ac addasu'r pwysau		Article 7(3)(b) and 7(4)(a)	Requirements as to weighing of carcase and weight adjustments
	Erthygl 12	Gofynion ynghylch dosbarthu drwy dechnegau graddio awtomataidd		Article 12	Requirements as to classification by automated grading techniques
	Erthygl 14(1), (2) a (3)	Gofyniad ynghylch pwyso'r carcass er mwyn hysbysu prisiau'r farchnad		Article 14(1), (2) and (3)	Requirement concerning the weighing of the carcase for the reporting of market prices
	Erthygl 14(4)	Gofynion ynghylch hysbysu prisiau fesul dosbarth		Article 14(4)	Requirements as to reporting of prices per class
Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn	Erthygl 17(2) o ran y modd y'i cymhwysir at daliadau atodol am garcasau Pwynt 2 o Ran A o Atodiad V	Gofynion ynghylch hysbysu unrhyw daliadau atodol  Gofynion ynghylch asesu faint o gig heb lawer o fraster sydd mewn carcasau	Commission Implementing Regulation	Article 17(2) in its application to supplementary payments for carcasses Point 2 of Part A of Annex V	Requirements as to notification of any supplementary payments Requirements as to assessment of lean meat content of carcasses
	Erthygl 1	Gofynion ynghylch y cyfathrebiad rhagnodedig		Article 1	Requirements as to the prescribed communication

Erthygl 9	Gofynion ynghylch dosbarthiadau a phwysau er mwyn cofnodi prisiau marchnad carcasau moch	Article 9	Requirements as to classes and weights for recording of market prices for pig carcasses
Erthygl 10	Cofnodi prisiau'r farchnad	Article 10	Recording of market prices

## RHAN 2

## PART 2

<i>(1) Y Rheoliad sy'n cynnwys y ddarpariaeth Ewropeaidd</i>	<i>(2) Y ddarpariaeth</i>	<i>(3) Y cynnwys</i>	<i>(1) Regulation containing European provision</i>	<i>(2) Provision</i>	<i>(3) Subject matter</i>
Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn	Erthygl 8(1), 8(2)(b), Erthygl 8(3)(c) o'u darllen gydag ail baragraff yr Erthygl honno ac Erthygl 8(4)	Gofynion ynghylch marcio carcasau neu eu labelu	Commission Delegated Regulation	Article 8(1), 8(2)(b), Article 8(3)(c) read with the second paragraph of that Article and Article 8(4)	Requirements as to marking or labelling of carcasses
	Erthygl 8(5)	Gofynion mewn perthynas â labelu carcas		Article 8(5)	Requirements in relation to labelling of a carcass

Cofnodion: carcassau buchol

1. Canlyniadau'r dosbarthu.
2. Rhif cymeradwyo'r lladd-dy.
3. Rhif lladdiad neu rif cigydda yr anifail y cafwyd y carcass ohono, fel y'i dyrannwyd gan y gweithredwr.
4. Dyddiad y cigydda.
5. Pwysau cynnes y carcass ynghyd â nodyn o'r canlynol—
  - (a) unrhyw addasiad a wnaed ar gyfer pwysau oer y carcass, a
  - (b) unrhyw gyfernod a gymhwyswyd.
6. Y fanyleb trin a ddefnyddiwyd.
7. Cofnod bod y cyfathrebiad rhagnodedig wedi ei wneud.
8. Enw, llofnod a rhif cyfresol trwydded ddosbarthu'r person a ymgymerodd â'r dosbarthu.

Records: bovine carcasses

1. The results of the classification.
2. The approval number of the slaughterhouse.
3. The kill or slaughter number of the animal from which the carcass was obtained, as allocated by the operator.
4. The date of slaughter.
5. The warm weight of the carcass together with a note of—
  - (a) any adjustment made for the cold carcass weight, and
  - (b) any co-efficient applied.
6. The dressing specification used.
7. A record that the prescribed communication has been effected.
8. The name, signature and classification licence serial number of the person who carried out the classification.

Cofnodion: carcasau moch

1. Canlyniadau'r dosbarthu.
2. Rhif cymeradwyo'r lladd-dy.
3. Rhif lladdiad neu rif cigydda yr anifail y cafwyd y carcass ohono, fel y'i dyrannwyd gan y gweithredwr.
4. Dyddiad y cigydda.
5. Pwysau cynnes y carcass, ynghyd â nodyn o'r canlynol—
  - (a) unrhyw addasiad a wnaed ar gyfer y pwysau carcass oer, a
  - (b) unrhyw gyfernod a gymhwyswyd.
6. Y ganran o gig heb lawer o fraster yn y carcass.
7. Dynodiad a oedd y tafod, gwêr yr arenau, yr arenau a'r diaffram yn gysylltiedig neu wedi'u tynnu ymaith.
8. Cofnod bod y cyfathrebiad rhagnodedig wedi ei wneud.
9. Enw a llofnod y person a ymgymerodd â'r dosbarthu.

---

©Hawlfraint y Goron 2019

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Records: pig carcasses

1. The results of the classification.
2. The approval number of the slaughterhouse.
3. The kill or slaughter number of the animal from which the carcass was obtained, as allocated by the operator.
4. The date of slaughter.
5. The warm weight of the carcass, together with a note of—
  - (a) any adjustment made for the cold carcass weight, and
  - (b) any coefficient applied.
6. The lean meat percentage of the carcass.
7. An indication as to whether the tongue, flare fat, kidneys and diaphragm were attached or removed.
8. A record that the prescribed communication has been effected.
9. The name and signature of the person who carried out the classification.

---

© Crown copyright 2019

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.







£6.90

W201901042000 01/2019

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2018/1215>

ISBN 978-0-11-130037-4



9 780111 300374